

## BEVAN, BRIDGET ('Madam Bevan'; 1698 - 1779), noddwraig ysgolion cylchynol

**Enw:** Bridget Bevan  
**Ffugenw:** Madam Bevan  
**Dyddiad geni:** 1698  
**Dyddiad marw:** 1779  
**Priod:** Arthur Bevan  
**Rhiant:** Elizabeth Vaughan (née Thomas)  
**Rhiant:** John Vaughan  
**Rhyw:** Benyw  
**Galwedigaeth:** noddwraig ysgolion cylchynol  
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Dyngarwch  
**Awdur:** Mary Clement

Merch ieuengaf **John** ac Elizabeth Vaughan, Cwrt Derllys, sir Gaerfyrddin. Bedyddiwyd hi 30 Hydref 1698 yn Eglwys Merthyr gan y rheithor, Thomas Thomas. Yr oedd, yn ôl pob tebyg, yn adnabod **Griffith Jones**, Llanddowror, yn ieuanc, am fod ei thad yn drefnydd ysgolion S.P.C.K. yn Sir Gaerfyrddin o 1700 hyd 1722, a **Griffith Jones** yn gofalu am ysgolion yn Lacharn (1709) a Llanddowror (1716); hefyd, cysylltwyd **Griffith Jones** â theulu'r Fychaniaid trwy briodas, gan iddo ef a **Richard Vaughan** (bu farw 1729), ewythr Bridget, briodi dwy chwaer, Margaret ac Arabella Philipps, **Castell Pictwn**, Sir Benfro.

Ar 30 Rhagfyr 1721 priododd Bridget Arthur Bevan, bargyfreithiwr o Lacharn. Gwnaethpwyd ef yn gofiadur bwrdeisdref Caerfyrddin, 1722-1741, ac yn aelod seneddol, 1727-1741. Ym Mai 1735 apwyntiwyd ef yn farnwr dros Dde a Gogledd Cymru. Ef oedd ysgutor ewyllys Syr Richard Steele. Bu farw 6 Mawrth 1743 yn 56 oed a chladdwyd ef yn eglwys Lacharn. (Rhoddir dyddiad ei farwolaeth fel 1745 gan y rhan fwyaf o haneswyr.)

Yn ieuencid Bridget Bevan yr oedd Cwrt Derllys yn ganolfan bywyd crefyddol ac addysgol. Yn 1700 ysgrifennodd ei rheithor lythyr i'r S.P.C.K. yn cymeradwyo sefydlu ysgol elusennol ym mhob plwyf ym Mhrydain Fawr. Naturiol ydoedd felly iddi gymryd diddordeb yng ngwaith ei thad a'i hofferiad, a sefydlodd hi ei hun ddwy ysgol o leiaf - yn Llandeilo Abercwyyn a Llandebie. Bu ganddi ddylanwad mawr ar **Griffith Jones**, a phan ddechreuodd ef ei ysgolion cylchynol rywbryd rhwng 1731 a 1737, hi oedd ei brif noddwr a chynghorwr. O 1732 hyd 1738 ysgrifennodd ef 175 o lythyrau ati, ac fe gyhoeddwyd 94 ohonynt. Ychydig ar ôl marwolaeth ei wraig yn 1755, aeth **Griffith Jones** i fyw yng nghartref Mrs. Bevan yn Lacharn, lle y bu farw 8 Ebrill 1761, gan adael iddi holl drysorfa'r ysgolion, ynghyd â'i eiddo personol - rhyw £7,000 rhwng y cwbl - gyda gorchymyn iddi fynd ymlaen â'r ysgolion cylchynol. Gwnaeth hyn yn llwyddiannus iawn hyd ei marwolaeth yn 1779; yn wir, y flwyddyn 1773, gyda'i 242 o ysgolion a'i 13,205 o ysgolheigion, oedd y fwyaf llwyddiannus yn hanes y mudiad.

Gadawodd Mrs. Bevan £10,000 er mwyn cadw'r ysgolion ymlaen, ond dymchwelwyd ei hewyllys gan ddau berthynas a oedd hefyd yn ymddiriedolwyr, sef yr Arglwyddes Elizabeth Stepney o Lanelli, a'r Llyngesydd William Lloyd, Danyrallt, Llangadog. Trosglwyddwyd ei holl eiddo i lys y Siansri, ac yno y bu am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain hyd nes y cynhyddodd i fod dros £30,000. Yn 1804 rhyddhawyd yr arian er mwyn y gwaith addysgol a fwrriadwyd gan Madam Bevan, ond yn 1854 cymerwyd drosodd yr ysgolion a oedd ar ôl gan Gymdeithas yr Ysgolion Cenedlaethol, a daeth y mudiad ysgolion cylchynol Cymraeg i ben.

Heblaw bod yn noddwr i'r ysgolion hyn cymerodd Madam Bevan ddiddordeb drwy'i hoes yn y rhan fwyaf o fudiadau crefyddol, dyngarol, ac addysgol ei dydd.

Bu farw 11 Rhagfyr 1779 a chladdwyd hi yn eglwys Llanddowror ar 17 Rhagfyr.

### Awdur

Dr Mary Clement

### Ffynonellau

*Llawysgrifau'r S.P.C.K.* (1761-1779, yn Llundain), yn cynnwys darnau o lythyrau oddi wrth Mrs. Bevan a'i chydweithwyr

*Llawysgrifau yn llyfrgell Amgueddfa sir Gaerfyrddin*, Llythyrau Griffith Jones at Madam Bevan, 1723-8

*Welch piety, or, A farther account of the circulating Welch charity schools â€¦ to which are annexed testimonials relating to the masters and scholars of the said schools; in a letter to a friend* (1742-60), 1761-1779 (y blynyddoedd 1777-8 a 1778-9 yn eisiau)

Edward Morgan (gol.), *Letters of the Rev. Griffith Jones, late Rector of Llandowror, Carmarthanshire, founder of the Welsh circulating schools to Mrs. Bevan, late of Langhorne, near Carmarthan with an introductory essay* (London 1832)

*The life and times of Selina, countess of Huntingdon* (Llundain 1839)

Mary Curtis, *The antiquities of Laugharne and Pendine, Carmarthenshire, S. Wales, with some notice of their neighbourhoods, and illustrations* (Llundain 1871)

C. Morgan Richardson, *History of the institution once called "The Welsh Piety", but now known as Mrs. Bevan's Charity* (1890)

G. Eyre Evans, 'Arthur Bevan,' yn *Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, iii, 53

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908)

D. Ambrose Jones, 'Madam Bevan,' yn *Yr Haul*, Mawrth 1931

W. Moses Williams, 'The Friends of Griffith Jones,' yn *Y Cymmrodor*, 46, 1939

G. J. Thomas, 'The Chancery Action re Madam Bevan's Will,' yn *Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, 1939

Mary Clement, 'John Vaughan, Cwrt Derlyls, a'i Waith,' yn #TrCymmc#, 1942

*Correspondence and minutes of the S.P.C.K. relating to Wales 1699-1740* (University of Wales Press 1952)

Mary Clement, *The S.P.C.K. and Wales, 1699-1740* (S.P.C.K. 1954)

T. Kelly, *Griffith Jones, Llanddowror pioneer in adult education* (Cardiff 1950)

## Darllen Pellach

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907), t.21

Erthygl Wicipedia: [Bridget Bevan](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q4966702](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

[frannu](#)

Arddull APA

x

Clement, M., (1953). BEVAN, BRIDGET ('Madam Bevan'; 1698 - 1779), noddwraig ysgolion cylchynol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BEVA-BRI-1698>

[Llyfrgell](#)

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Moder gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government